# Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021

**2021 dsc 2**

*Prif ddarpariaethau*

**10 Pŵer i ohirio is-etholiadau'r Senedd**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys ar ôl 6 Mai 2021 pan fo etholiad i'w gynnal o dan adran 10 o Ddeddf 2006 i lenwi sedd wag aelod etholaethol ("is-etholiad i'r Senedd").

(2) Caiff y Llywydd bennu dyddiad ar gyfer cynnal y pôl ar gyfer is-etholiad i'r Senedd sydd y tu allan i'r cyfnod sy'n ofynnol o dan adran 10(5) neu (6) o Ddeddf 2006.

(3) Wrth bennu diwrnod o dan is-adran (2), rhaid i'r Llywydd bennu diwrnod sef y diwrnod cynharaf y mae'r Llywydd yn ystyried ei fod yn rhesymol ymarferol.

(4) O ran y pŵer o dan is-adran (2)—

(a) caniateir iddo gael ei arfer fwy nag unwaith, a

(b) ni chaniateir iddo gael ei arfer er mwyn pennu dyddiad ar ôl 5 Tachwedd 2021.

(5) Cyn arfer y pŵer o dan is-adran (2), rhaid i'r Llywydd ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 10 mewn grym ar 17.3.2021, gweler **a. 18**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021, Adran 10.